| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor GwE |
| **DYDDIAD** | 15 Gorffennaf 2015 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad "alldro" Incwm a Gwariant Refeniw 2014/15, a<br>• Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth, a chadarnhau'r driniaeth o'r tanwariant. |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor GwE.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5m, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

1.6 Bydd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, ar wahân i'w harchwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd.

**2. CYFRIFON 2014/15**

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2014/15 yma fel Atodiad A,** ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol", ar ffurf adroddiad "alldro" sydd, hyderaf, yn fwy dealladwy i aelodau weithredu fel "bwrdd rheolaethol". Mae'r tabl yn **Atodiad A a.** a'r sylwadaeth yn **Atodiad A b**..

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Datganiad o'r Cyfrifon am 2014/15 (cyn archwiliad), wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol,** sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor. Mae'r datganiad yma ar ffurf safonol statudol ac yn hanfodol o safbwynt "llywodraethu".

2.3 Bydd rhain yn destun archwiliad buan gan Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn cynhyrchu adroddiad "ISA260" (yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru) i'w gyflwyno i Gyd-Bwyllgor GwE ar 23 Medi 2015.

**3. TANWARIANT**

3.1 Mae'r tanwariant net terfynol am 2014/15 yn £50,932.

3.2 Mae Atodiad A yn manylu ar y rhesymau dros y tanwariant net a'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r balans.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 **Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn a nodi'r wybodaeth sy'n yr atodiadau a chadarnhau'r driniaeth o'r tanwariant ,** sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2014/15 – Atodiad A
- Datganiad o'r Cyfrifon 2014/15 (cyn archwiliad) – Atodiad B

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro :**

Dim sylwadau o rhan priodoldeb.

**Y Swyddog Cyllid Statudol :**

Awdur yr adroddiad.